

Dull PESS o Addysgu Dawns - Cyfnod Allweddol 2

Ffurio cysylltiadau ♦ phynciau eraill

Ffurio cysylltiadau ♦ phynciau eraill

- Mae'r dull chwe cham wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y gellir gwella gwaith dysgu disgyblion drwy eu helpu i ffurfio cysylltiadau rhwng gwaith dysgu presennol a gwaith dysgu blaenorol a rhwng gwaith dysgu presennol a gwaith dysgu yn y dyfodol.
- Er mwyn sicrhau bod gwaith addysgu'n datblygu pob agwedd ar y plentyn a sicrhau bod plant yn meithrin dealltwriaeth gyfannol sy'n integreiddio'u holl waith dysgu yn hytrach na'i rannu'n adrannau, rhaid i athrawon helpu disgyblion i ffurfio cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd o brofiad a rhwng gwahanol bynciau.
- Mae'r prosiect AGChY yn sicrhau bod iaith a chysyniadau tebyg yn cael eu defnyddio ym maes Gymnasteg a Dawns a bod y cynlluniau gwersi yn cyfeirio at waith dysgu blaenorol a gwaith dysgu yn y dyfodol, a bod y gwaith dysgu hwn yn cael ei ddefnyddio a'i gynnwys mewn cynlluniau gwersi lle bo hynny'n bosibl.
- Mae natur dawns yn golygu y gall pynciau eraill gael effaith gadarnhaol ar safon ac ansawdd profiadau dysgu'r disgyblion ym maes dawns, a gall profiadau'r disgyblion yn ystod gwersi dawns gael effaith gadarnhaol ar eu gwaith dysgu mewn pynciau eraill.
- Yn amlwg, er mwyn cyflawni hyn, rhaid gwneud gwaith cynllunio ar gyfer dosbarth unigol neu'r ysgol gyfan er mwyn sicrhau y gellir manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ffurfio cysylltiadau a sicrhau bod dilyniant a pharhad yn y gwaith.
- Mae athrawon sydd wedi gweithio yn y modd hwn yn dweud bod y manteision o safbwynt datblygu pob agwedd ar y plentyn yn werth yr amser ychwanegol a gaiff ei dreulio ar gynllunio a threfnu.
- Gellir ffurfio cysylltiadau o'r fath mewn nifer o ffyrdd, a byddwch wedi trafod rhai o'r rhain yn ystod digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus y Dull AGChY o Addysgu Dawns. Fodd bynnag, rhestrir rhai enghreifftiau isod.

Enghreifftiau o gysylltiadau

Saesneg

- Gellid defnyddio'r cerddi a'r storïau y mae'r disgyblion yn eu trafod mewn gwersi Saesneg fel symbyliad ar gyfer dawns.
- Efallai y bydd strwythur y gerdd neu'r stori yn helpu disgyblion i strwythuro eu dawns. Bydd disgyblion yn gallu defnyddio geirfa o'r gerdd neu'r stori fel geiriau sy'n disgrifio gweithred neu eiriau sy'n disgrifio nodwedd er mwyn cael ysbrydoliaeth ar gyfer gweithrediadau a motiffau/cymalau.
- Gallai'r dosbarth adrodd y gerdd, a gellid gwneud recordiad digidol o'r dosbarth yn gwneud hynny i'w ddefnyddio fel cyfeiliant yn ystod y wers ddawns.
- Wrth i eirfa gyffredinol y disgyblion ehangu, byddant yn gallu ehangu eu geirfa sy'n ymwneud ♦ symud, yn enwedig berfau, ansoddeiriau ac adferfau, oherwydd gellir cysylltu'r rhain i gyd ♦ gweithrediadau a'r modd y caiff y gweithrediadau hyn eu perfformio.
- Fel arall, os yw'r disgyblion wedi dod ar draws dawns neu thema benodol yn ystod eu gwersi dawns, gallent lunio eu cerddi neu'u darnau ysgrifennu creadigol eu hunain ar y thema neu'r syniad hwnnw.
- Awgrymir bod cymryd rhan mewn gweithgareddau dawns yn gallu gwella geirfa a dealltwriaeth disgyblion i raddau mwy na phe byddent heb gael y profiad hwnnw.
- Mae'n ymddangos bod disgyblion yn cael budd gwybyddol a chorfforol o'r profiad dawns.
- Gellid ffurfio cysylltiadau ♦ Cherddoriaeth, Celf a Hanes hefyd.

Cymraeg

- Mae'r sefyllfa'n debyg iawn i Saesneg o safbwynt llenyddiaeth a geirfa.
- Fodd bynnag, ceir cyfleoedd amlwg i ddatblygu agweddau ar y Cwricwlwm Cymreig megis cloddio am lo, diwydiant ac Eisteddfodau.
- Gellid ffurfio cysylltiadau ♦ Chelf a Cherddoriaeth.

Hanes

- Gellid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o bobl a chyfnodau yn y gorffennol fel symbyliad ar gyfer dawns. Er enghraifft, os yw'r disgyblion yn astudio'r Ail Ryfel Byd, gallent edrych ar ddawnsiau o'r 1940au yn ystod eu gwersi dawns.
- Gallai hyn ddigwydd y ffordd arall hefyd. Gallai disgyblion brofi'r ddawns yn gyntaf ac yna symud ymlaen i astudio'r cyfnod yn fanylach. Fel hyn, mae'r ddawns yn cynnig rhagflas o'r gwaith dysgu sydd i ddod mewn perthynas ♦'r cyfnod hanesyddol perthnasol.
- Gellid ffurfio cysylltiadau ♦ Chymraeg a Saesneg hefyd.



Gwyddoniaeth

- Gallai disgyblion astudio cysyniadau gwyddonol a'u defnyddio fel symbyliad ar gyfer eu gwersi dawns.
- Mae Uned 14 yn defnyddio'r cysyniad o fagneteg yn y modd hwn. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys trydan, solidau, hylifau a nwyon, adeiledd moleciwlaidd a llawer mwy.
- Unwaith eto, mae'n debyg y bydd y disgyblion yn cael budd gwybyddol o archwilio a phrofi'r cysyniadau hyn mewn modd corfforol.
- Gellid ffurfio cysylltiadau ♦ Dylunio a Thechnoleg a Daearyddiaeth hefyd.

Cerddoriaeth

- Gallai disgyblion astudio darn o gerddoriaeth, cerddoriaeth o wledydd penodol neu fathau arbennig o gerddoriaeth, a gallent ddefnyddio unrhyw rai o'r rhain fel symbyliad a chyfeiliant ar gyfer eu dawns.
- Gallai disgyblion gyfansoddi, perfformio a recordio eu cerddoriaeth eu hunain i'w defnyddio fel cyfeiliant.
- Gellid ffurfio cysylltiadau ♦ Chymraeg a Hanes hefyd.

Daearyddiaeth

- Gallai disgyblion astudio gwledydd penodol, er enghraifft Affrica neu Tsieina, ac astudio dawnsiau o'r gwledydd hynny yn ystod eu gwersi dawns.
- Gallai disgyblion edrych ar agwedd ar ddaearyddiaeth ffisegol, er enghraifft llosgfynyddoedd, a defnyddio'r agwedd honno fel symbyliad ar gyfer eu dawns. Mae Uned 13 yn defnyddio llosgfynyddoedd fel symbyliad.
- Fel arall, gallai disgyblion ystyried rhyw agwedd yn ystod eu gwersi dawns a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r agwedd honno yn eu gwersi daearyddiaeth.
- Gellid ffurfio cysylltiadau ♦ Hanes, Addysg Grefyddol a Gwyddoniaeth hefyd.

Addysg Grefyddol

- Mae nifer o seremonïau a dathliadau crefyddol yn cynnwys rhyw fath o ddawns.
- Gallai disgyblion astudio crefyddau gwahanol a pherfformio rhai o'r dawnsiau sy'n gysylltiedig ♦'r crefyddau hynny.
- Fel arall, gallai disgyblion gael eu cyflwyno i wahanol ddawnsiau sy'n gysylltiedig ♦ chrefyddau penodol ac astudio'r crefyddau'n fanylach yn dilyn hynny.
- Byddai hyn yn gyfle delfrydol i ddisgyblion ddatblygu empathi a dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill trwy drafod teimladau ac emosiynau.
- Gellid ffurfio cysylltiadau ♦ Daearyddiaeth, Hanes, Cerddoriaeth a Chelf hefyd.

Celf

- Y cysylltiad amlwg rhwng dawns a chelf yw defnyddio lluniau, arteffactau a gweithiau celf ac ati fel symbyliad ar gyfer dawns.
- Gallai disgyblion greu gwisgoedd, setiau, propiau ac ati er mwyn helpu i lwyfannu eu dawns.
- Ar ♦l i'r disgyblion gwblhau uned waith, gallent ddefnyddio'r un thema wrth dynnu llun, paentio, gwneud modelau a phypedau ac ati.
- Fel hyn, mae'r ddawns yn symbyliad i'r gwaith a wneir mewn gwersi Celf.
- Gellid ffurfio cysylltiadau ♦ Hanes hefyd.



Er y gellir ffurfio cysylltiadau ♦ phynciau eraill, mae'r cysylltiadau hyn yn llai amlwg ac felly nid ydynt yn cael eu trafod yn yr adran hon. Ym mhrofiad y prosiectau AGChY, dim ond plannu hedyn o syniad sydd raid, a bydd athrawon yn datblygu'r syniad hwnnw y tu hwnt i bob disgwyl.